

YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF: 30/2016  
DYDDIAD CYHOEDDI 29/06/2016

---

# Gwerthuso Rhaglen Dysgu Seiliedig ar Waith 2011-14: Prentisiaethau - Diwygiedig

## **CRYNODEB GWEITHREDOL**

1. Comisiynodd Llywodraeth Cymru York Consulting, ar y cyd ag Old Bell 3, Prifysgol Caerdydd ac IFF Research i gynnal gwerthusiad o'r Rhaglen dysgu seiliedig ar waith (WBL) 2011-14.
2. Roedd elfennau allweddol y fethodoleg yn cynnwys: cyfweiliadau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid allanol a darparwyr dysgu; adolygiad o wybodaeth am reolaeth prentisiaethau a data perfformiad rhaglen; arolwg ffôn o 95 cyflogwr oedd yn rhan o gyflwyno prentisiaethau; e-arolwg o brentisiaid cyfredol; arolwg ffôn o rai'n gadael prentisiaethau; astudiaethau achos o gyflogwyr oedd â rhan mewn prentisiaethau a'u prentisiaid (lle roeddynt ar gael); a, dadansoddiad gwerthuso effaith gwrthffeithiol (CIE) yn cymharu data arolwg meintiol prentisiaethau ag is-sampl o Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth (APS).

## **Canfyddiadau allweddol**

3. Amlygodd adolygiad o lenyddiaeth fod datblygiad tebyg mewn polisi prentisiaethau wedi bod yn digwydd ledled y Deyrnas Unedig (DU). Mae holl llywodraethau'r DU wedi gweld gwerth prentisiaethau i'w heconomïau ac maent yn arbennig o awyddus i ledaenu lefel y buddsoddi rhwng y llywodraeth a'r cyflogwyr. Mae, fodd bynnag, rhai gwahaniaethau clir o ran amserlenni a manylder y polisiau.
4. Gall rhai o'r gwahaniaethau hyn fod ag oblygiadau yn y tymor hir ar gyfer y DU ac o ganlyniad i Gymru. Er enghraifft wrth i ymagweddau at fanyleb prentisiaeth newid, yna bydd cyflogwyr mawr yn wynebu gagendor sy'n ehangu ar draws ardaloedd yn y DU. Er na allwn fesur effaith hyn, disgwylir y gallai arwain at gyfyng-gyngor a phenderfyniadau a allai ddylanwadu ar leoliadau hyfforddiant prentisiaethau er mwyn osgoi systemau lluosog mewn cyflogwyr unigol.
5. Ystyriwyd fod y broses dendro a elwir yn WBL3 a WBL4 wedi bod yn effeithiol ac wedi sicrhau ystod dda o ddarparwyr. Llwyddodd i gael cyfuniad o golegau, darparwyr WBL preifat a darparwyr WBL o'r trydydd sector. Roedd yr hyn a ddisgwylid gan ddarparwyr wedi eu gosod yn glir yn dilyn fersiynau blaenorol o'r rhaglen brentisiaeth.

### *Perfformiad y rhaglen*

6. Cyfanswm y nifer o ddysgwyr unigryw rhwng Awst 2011 a Rhagfyr 2014 oedd 99,775. Roedd nifer dysgwyr prentisiaeth blyneddol wedi codi i 54,350 yn 2013-14 ond disgynnodd o 11 y cant yn 2014-15 i 48,335. Disgynnodd niferoedd y dysgwyr oedd mewn prentisiaethau sylfaen o 21 y cant a phrentisiaethau (L3) o 13 y cant; er fod dysgwyr oedd yn rhan o brentisiaethau uwch wedi codi o 47 y cant.
7. Y newid sectoraidd mwyaf oedd y cynnydd yn y gyfran o brentisiaethau mewn Gofal Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus (wedi codi o 30 y cant yn 2011/12 i 35 y cant yn 2013/14).

8. Yn gyffredinol roedd gan ddysgwyr gymhwyster blaenorol oedd yn hafal neu'n uwch na'u lefel o astudiaeth o'i gymharu â lefel y dysgu roeddynt yn gweithio tuag ato.
9. Awgryma data o Arolwg Safbwyntiau Cyflogwyr fod lle i ddatblygu ymhellach, y tu hwnt i'r 15 y cant o gyflogwyr, yn arbennig ymysg cyflogwyr llai.
10. Yn gyffredinol, mae cyfraddau llwyddiant prentisiaethau wedi bod yn codi ac maent yn uchel ar 84 y cant. Fodd bynnag mae cyfraddau llwyddiant ymysg Prentisiaethau Uwch (HA) yn fesuradwy is ar 67 y cant (ond mae angen gofal mewn perthynas â'r data hwn oherwydd materion ansawdd data sy'n ymddangos gyda nifer fach o ddarparwyr dysgu).
11. Fe wnaeth y rhaglen ragori ar bob un o dargedau Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) gyda'r eithriad o gymwysterau lefel 2 (a fethwyd o ychydig) a phobl hŷn.
12. Fe wnaeth ychydig dros hanner y rhai oedd yn cymryd rhan (51 y cant) lwyddo i gael cymhwyster (er efallai y bydd hyn yn codi gan fod rhai prentisiaid yn dal i ddysgu).
13. Roedd ychydig dros ddwy ran o bump o'r rhai oedd yn cymryd rhan (61 y cant) o ardaloedd Cydgyfeirio yng Nghymru. Roedd y gyfran o bawb oedd yn cymryd rhan ac a lwyddodd i ennill cymwysterau yn yr ardaloedd Cydgyfeirio hyd yn oed yn uwch (68 y cant). Roedd cyflymdra'r rhai oedd yn cymryd rhan o'r ardaloedd Cydgyfeirio hefyd yn uwch (56 y cant) na'r rhai yn yr ardaloedd Cystadleuol (43 y cant). Roedd dros hanner y rhai a gymerodd ran yn ferched (57 y cant).

#### *Safbwyntiau rhanddeiliad a darparwyr*

14. Yn gyffredinol, ystyriwyd fod y gofyn am brentisiaeth gan yr holl randdeiliaid a darparwyr yn gyson uchel a chredwyd fod y rhaglen yn ennill hygrededd.
15. Roedd cytundeb unfrydol fod rhaglen dysgu seiliedig ar waith (WBL) yn gyffredinol yn gweddu'n dda gyda pholisi ehangach Llywodraeth Cymru a hefyd yn cyfarfod ag anghenion hyfforddiant lleol.

16. Yn nhermau ymwybyddiaeth roedd pryder yn aros am wybodaeth y rhieni am y prentisiaethau. Roedd syniadau cymysg hefyd am ba mor wybodus oedd y cyflogwyr.
17. Roedd pryderon yn aros nad oedd ysgolion yn darparu digon o wybodaeth ddiuedd i bobl ifanc i'w galluogi i wneud dewisiadau cytbwys am brentisiaethau o'u cymharu ag opsiynau eraill.
18. Y prif ddulliau o recriwtio i brentisiaethau oedd: o wefan y Gwasanaeth Paru Prentisiaethau (AMS); drwy recriwtio uniongyrchol gan gyflogwyr/ darparwyr a thrwy droi'r staff sydd yno'n barod i gyfeiriad prentisiaeth. Roedd agweddau'r darparwyr at system yr AMS yn gyffredinol yn feirniadol, gydag ymdeimlad o anfodlonrwydd.
19. Nodwyd nifer o fanteision oedd yn gysylltiedig â phrentisiaethau uwch oedd yn ymddangos. Fodd bynnag, roedd ychydig o randdeiliaid a darparwyr yn mynegi pryder fod prentisiaethau uwch (HA) yn gallu cael yr effaith o geisio gorfodi rhai gweithwyr i swyddi uwch nag roedden nhw wir am eu cymryd. Roedd darparwyr yn teimlo ei bod yn bosibl fod HA wedi ymgysylltu â rhai cyflogwyr na fyddent yn draddodiadol wedi cymryd prentisiaid. Awgryma hyn fod cynnydd wedi ei wneud i annog mwy o gyflogwyr i fuddsoddi mewn hyfforddiant i'r dyfodol.
20. Roedd darparwyr yn gyffredinol yn cytuno mai dim ond ychydig iawn oedd y gofyn am brentisiaethau yn y Gymraeg. Dywedodd pob darparwyr eu bod yn annog dysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedodd llawer fod eu dogfennaeth yn ddwyieithog. Roedd cymryd agwedd 'cymysg' tuag at yr iaith Gymraeg - hybu dwyieithrwydd - yn galluogi prentisiaid i siarad Cymraeg gyda'u haseswyr os oeddent yn dymuno hynny, ond i wneud eu hasesiad/gwaith cwrs yn Saesneg os mai hyn oedd eu dewis. Defnyddiodd nifer o ddarparwyr yr 'agwedd gymysg' hon.
21. Roedd pob darparwr yn ymwybodol o bwysigrwydd mynd i'r afael â stereoteipio rhywiol; fodd bynnag, nid oedd llawer o dystiolaeth o ymatebion rhagweithiol neu gyflogwyr heriol.

22. Roedd safbwyntiau cymysg ar y pwnc o gystadleuaeth rhwng darparwyr am ddysgwyr. Teimlai rhai darparwyr nad oedd cystadleuaeth fewnol mewn grŵp o isgontractwyr, tra roedd eraill yn cydnabod fod yna gystadleuaeth.
23. Mwy na thebyg mai'r broblem fwyaf i ddarparwyr oedd tanwario. Nid oedd rhai darparwyr yn tynnu sylw at danwario na thanddefnyddio ar gyfnod digon cynnar i leoedd gael eu hadleoli.

#### *Profiadau cyflogwyr*

24. Roedd y mwyafrif (56) o gyflogwyr yn fodlon iawn gyda'r rhai oedd yn cymryd rhan yn eu prentisiaethau ers 2011, a bron iawn i bawb (72) o gyflogwyr prentisiaid yn dweud fod effeithiolrwydd cyffredinol y gweithlu wedi cael effaith cadarnhaol oherwydd rhan y sefydliad yn y rhaglen brentisiaeth.
25. Roedd mwyafrif y cyflogwyr yn fodlon gyda'r rhan fwyaf o agweddau eu perthynas â'u darparwyr. Roedd cyflogwyr yn glir ar yr hyn oedd yn ddisgwyliedig o ymgysylltiad eu sefydliad â phrentisiaethau.
26. Roedd y mwyafrif o gyflogwyr yn fodlon iawn gyda'u profiadau diweddar o raglen WBL (51) ac yn dweud y byddai'n debygol iawn y byddent yn cynnig lleoliadau yn y dyfodol, o ystyried eu profiad diweddar (58) tra dwedodd 18 y byddai hynny'n debygol.

#### *Profiadau'r prentisiaid*

27. Mae profiad prentisiaid presennol, a rhai'r gorffennol yn debyg iawn.
28. Y tri phrif reswm am wneud prentisiaeth oedd 'i ddatblygu ystod ehangach o sgiliau a/ neu wybodaeth', 'i wella neu ledu rhagolygon eu gyrfa' ac 'i ddatblygu sgiliau mwy arbenigol a/neu wybodaeth'.
29. Nid oedd bron i dri chwarter o'r rhai oedd yn cymryd rhan yn y gorffennol yn ymwybodol o'r Gwasanaeth Paru Prentisiaethau (AMS). O'r rhai oedd yn ymwybodol, roedd 43 ohonynt (30 y cant) wedi defnyddio AMS wrth feddwl am

wneud prentisiaeth. O'r 43 o ymatebwyr, roedd bron i bob un ohonynt (98 y cant) wedi canfod y gwasanaeth yn offeryn defnyddiol.

30. Roedd bron i dri chwarter y rhai oedd yn cymryd rhan yn y gorffennol yn gweithio i'r un cyflogwr cyn dechrau eu prentisiaethau ag roeddynt yn gweithio iddo yn ystod eu prentisiaethau. Roedd tua chwarter yr ymatebwyr wedi eu recriwtio'n benodol fel prentis neu i wneud prentisiaeth.
31. Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr fod prentisiaethau yn 'dda i gael profiad a sgiliau', 'cam da tuag at gael cyflogaeth' a 'help i chi symud ymlaen mewn cyflogaeth'
32. O'r 144 o ymatebwyr a ddwedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg: roedd dros bedair rhan o bump wedi cael y cyfle i gwblhau rhan neu'r cyfan o'u dysgu yn Gymraeg (85 y cant) ac i ddefnyddio Cymraeg yn ystod eu cwrs (86 y cant); roedd bron i dri chwarter (74 y cant) wedi cael y cyfle i ddefnyddio Cymraeg yn y gweithle; ac roedd bron i dair rhan o bump (58 y cant) wedi cael y cyfle i weithio tuag at gymhwyster drwy gyfrwng Cymraeg.
33. Ar y cyfan roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn fodlon gyda'u darparwr (88 y cant) a gyda'u cyflogwr (85 y cant).
34. O'r rhai oedd yn gweithio fel gweithwyr cyflogedig i'r un cyflogwr cyn y brentisiaeth (267 ymatebwr), cafodd ychydig dan draean (31 y cant) ddyrchafiad ers iddynt wneud prentisiaeth. Teimlai'r mwyafrif o'r ymatebwyr (86 y cant) eu bod wedi gallu cymhwyso'r hyn roeddynt wedi'i ddysgu ar eu prentisiaeth. Teimlai ychydig o dan hanner y prentisiaid a arolygwyd fod y brentisiaeth wedi rhagori ar y disgwyliadau oedd ganddynt cyn cychwyn (46 y cant). Ar y cyfan roedd ychydig dros bedair rhan o bump (83 y cant) yn fodlon ar y brentisiaeth. Byddai tair rhan o bump (60 y cant) yn gwneud yr un brentisiaeth yn yr un lle.

## Argymhellion

35. Canfuwyd yr argymhellion canlynol o ganlyniad i'r gwerthusiad hwn:

- O ystyried y lefel uchel o alw am brentisiaethau, byddai rhinwedd mewn ystyried targedu'r cymorth a ariennir yn fwy gofalus yn y dyfodol. Gallai meysydd targed allweddol gynnwys: cyflogwyr llai, dysgwyr gyda chymwysterau blaenorol is a sectorau blaenoriaeth.
- Dylid gwneud adolygiad o'r AMS i asesu ei werth am arian, o ystyried y gyfran gymharol isel o brentisiaid sy'n ei ddefnyddio. Deallwn ei fod wedi'i gynllunio mewn ffordd y dylai fod yn gost cymharol isel i'w weinyddu ond mae darparwyr yn dangos fod y gost o gynnal y data yn gorbwyso'r manteision. Mae angen cydbwysu hyn yn erbyn yr effaith farchnata, gan y gall hefyd fod yn 'rhoden fellt' i gefnogi ymwybyddiaeth o brentisiaethau , yn enwedig ymysg pobl ifanc a'u rhieni.
- Datblygu ffurfiau mwy effeithiol o gyfathrebu am brentisiaethau yn gyffredinol, a dylid archwilio cyfleoedd penodol yn arbennig. Dylai'r rhain ystyried ffurfiau o gyfathrebu sy'n gyfeillgar i bobl ifanc fel Facebook a mecanweithiau rhyngweithio cymdeithasol tebyg.
- Mae angen ymchwil a dealltwriaeth fanylach yn benodol am brentisiaethau uwch. Mae cyfran prentisiaethau uwch o'r holl brentisiaethau yn codi, ond mae pryderon am y cyfraddau llwyddiant sy'n amrywiol iawn a rhai gwahaniaethau mewn disgwyliadau ymysg cyflogwyr, darparwyr a'r rhai sy'n cymryd rhan yn dangos fod angen talu mwy o sylw i sicrhau datblygu effeithiol.
- Adnabod gwell rheolaeth o niferoedd dysgwyr gan ddarparwyr i osgoi'r risgiau cyfansawdd sy'n gysylltiedig â darparwyr yn dal eu gafael ar leoedd i brentisiaid ac wedyn yn eu gollwng pan mae'n rhy hwyr i alluogi darparwyr eraill i ymateb.

- O safbwynt ymchwil, byddai gwella lefelau caniatâd i gymryd rhan mewn ymchwil yn galluogi dadansoddiad gwerthuso cadarnach i gael ei wneud.

Adroddiad awduron:...

Philip Wilson, Amy Woolger, Matthew Cutmore  
(York Consulting)  
Huw Bryer, Nia Bryer (Old Bell 3)  
Mark Winterbotham (IFF Research)  
Rhys Davies (Prifysgol Caerdydd)

Adroddiad ymchwil llawn: Gwerthuso Rhaglen Dysgu Seiliedig ar Waith 2011-14: Prentisiaethau  
Ar gael yn: <http://lyw.cymru/statistics-and-research/evaluation-pathways-apprenticeship-programme/?lang=cy>

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Siân Williams  
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
Ffôn: 02920 823991  
Ebst: [sian.williams50@cymru.gsi.gov.uk](mailto:sian.williams50@cymru.gsi.gov.uk)